Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## IS-DDEDDF 30

## PYSGOTA AM GIMWCH, CIMWCH COCH, CRANC, CORGIMWCH A CHRAGEN FOCH

1. Ni chaiff unrhyw un, ond yn unol â pharagraff 5, bysgota, cymryd neu lanio, o unrhyw bysgodfa oddi mewn i'r Rhanbarth, unrhyw un o'r rhywogaethau a restrir isod. Rhaid glanio'r holl bysgod o'r fath ar yr un diwrnod calendr a'u daliwyd ac ni chaniateir cadw'r pysgod hyn yn y môr mewn cawell gadw neu unrhyw declyn o'r fath.

| Rhywogaeth | Uchafswm y nifer dyddiol |
|---|---|
| Cimychiaid (*Homarus gammarus*) | 2 unigolyn |
| Cimychiaid Coch (*Palinurus elephas*) | 1 unigolyn |
| Crancod bwytadwy (*Cancer pagurus*)<br>Crancod Heglog (*Maia squinado*)<br>Crancod Llygatgoch (*Liocarcinus puber*) | Cyfanswm cyfunol o 5 unigolyn |
| Corgimychiaid (Pandalidae and Palaemonidae) | 1 cilogram |
| Cregyn Moch (*Buccinum undatum*) | 5 cilogram |

Guidance on Minimum Conservation Reference Size (MCRS) can be found at:
https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-05/pysgod-a-physgod-cregyn-y-meintiau-lleiaf-ar-canllaw-mesur-i-brynwyr-cofrestredig.pdf

2. Ni chaiff unrhyw un, ond yn unol â pharagraff 5, bysgota trwy ddefnyddio cewyll neu drapiau, yn unrhyw ran o'r Rhanbarth, ac eithrio yn ôl hawliad Llywodraeth Cymru.

3. Amodau'r hawliad:

   a) Nid ellir trosglwyddo'r hawliad
   b) Ni chaiff derbynnydd yr hawliad ddefnyddio mwy na 5 cawell neu drapiau
   c) Rhaid i'r holl offer pysgota gael ei farcio'n glir â'r rhif a roddir gyda'r hawliad
   d) Rhaid i unrhyw gwch a ddefnyddir yn ôl yr is-ddeddf hon arddangos yn glir y rhif a roddir gyda'r hawliad, nid yw'r cwch i ddangos mwy nag un rhif hawliad, ac ni ddefnyddir y cwch ar gyfer codi unrhyw gewyll neu drapiau sydd heb eu marcio â'r rhif hwnnw
   e) Ni fydd y drwydded i bysgota yn ddilys pe torrir unrhyw un o'r amodau uchod.

4. Gellir gwneud cais am drwydded i bysgota o dan yr is-ddeddf hon trwy ddefnyddio'r ffurflenni argraffedig sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru.

5. Nid yw'r is-ddeddf hon yn berthnasol i unrhyw un sy'n pysgota o unrhyw gwch pysgota sydd wedi'u cofrestru'n unol â'r rheol sydd mewn grym ar y pryd ar gyfer cofrestru cwch pysgota Prydeinig ac sy'n dal trwydded pysgota gyfredol a roddwyd gan Lywodraeth Cymru a Lloegr.

## IS-DDEDDF 31

## GWARCHOD CIMYCHIAID V-FYLCHOG

1. Mae'r is-ddeddf hon yn berthnasol i'r rhan o'r Rhanbarth oddi mewn i linell a dynnwyd ar ochr atfor y llinellau sylfaen 6 môr-filltir o'r llinellau sylfaen y mesurir lled y môr tiriogaethol sydd yn gyfagos i'r Deyrnas Unedig.

2. At ddibenion y paragraff hwn y mae y "llinellau sylfaen" yn gyfystyr a'r llinellau sylfaen mewn bodolaeth ar 25 Ionawr, 1983, yn unol â Gorchymyn Dyfroedd Tiriogaethol Cyngor 1964 (1965 III t.6452A) ac a ddiwygiwyd gan Orchymyn Dyfroedd Tiriogaethol (Gwelliant) Cyngor 1979 (1979 II t.2866).

3. Ni chaiff unrhyw un bysgota am neu gymryd unrhyw gimwch o’r rhywogaeth Homarus gammarus sydd wedi ei V-fylchu gyda bwlch o ffurf llythyren "V" yn un neu fwy o bum fflap gwyntyll y cynffon, neu wedi ei nodi mewn unrhyw ffordd arall neu wedi ei anafu mewn ffordd a olygir fod unrhyw un o bum fflap y cynffon ar goll neu wedi ei anafu mewn ffordd a allai guddio neu ddifetha’r V-fwlch neu unrhyw farc arall.

4. Dylir dychwelyd unrhyw gimwch sydd wedi ei nodi yn y ffordd yma i’r môr ar unwaith.

**Nodyn Cynghori:**

Cimychiaid Coch a Chimychiaid Wyog (Diffiniad: “Cimwch neu gimwch coch sy’n cario wyau sydd ynghlwm wrth ei gynffon neu ddarn allanol arall, neu a oedd yn cario wyau pan gafodd ei ddal”)

**Am resymau cadwraeth cynghorir y dylai Cimychiaid Coch a Chimychiaid Wyog gael eu dychwelyd i’r môr ar unwaith bob amser.**